O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2021 Rhif 1240 (Cy. 313)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M48 (Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse), Cas-gwent, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2021

Gwnaed	*4 Tachwedd 2021*
Yn dod i rym	*11 Tachwedd 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o draffordd yr M48, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M48 (Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse), Cas-gwent, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Tachwedd 2021.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 11 Tachwedd 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o'r gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") yw Traffordd yr M48 Llundain i Abergwaun;

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 4 Tachwedd 2021

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN
Gwahardd Cerbydau Dros Dro

1. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin yr M48 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse) hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth y Gyffordd honno.

2. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr M48 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse) hyd at

drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth y Gyffordd honno.

3. Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin yr M48 wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse).

4. Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gorllewin yr M48 wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse).

5. Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r dwyrain yr M48 wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse).

6. Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr M48 wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse).

7. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr M48 sy'n ymestyn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse), a chan gynnwys y ffordd ymuno honno, hyd at bwynt 47 o fetrau i'r gorllewin o'r cymal mecanyddol ym mhen gorllewinol Pont Hafren yr M48.